OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 516 (Cy. 92)

2025 No. 516 (W. 92)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2025

The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 (O.S. 2024/753 (Cy. 105)) ("Gorchymyn 2024").

Mae erthygl 2(2) yn diwygio dyddiad dod i rym erthyglau 35 i 41 o Orchymyn 2024 o 1 Gorffennaf 2025 i 1 Gorffennaf 2026.

Mae erthygl 2(3) yn rhoi'r geiriau "o dan gyfarwyddyd" yn lle "o dan oruchwyliaeth" yng Ngorchymyn 2024 drwyddo draw i'w gwneud yn glir nad oes angen i filfeddyg fod yn bresennol yn y cnawd o reidrwydd pan fydd person yn cymryd sampl.

Mae erthygl 2(4) yn estyn y cyfnod profi cyn symud, pan fo anifail i'w symud oddi ar ddaliad, o 30 o ddiwrnodau i 60 o ddiwrnodau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024 (S.I. 2024/753 (W. 105)) ("the 2024 Order").

Article 2(2) amends the coming into force date of articles 35 to 41 of the 2024 Order from 1 July 2025 to 1 July 2026.

Article 2(3) replaces the word "supervision" with "direction" throughout the 2024 Order to clarify that a veterinary surgeon does not necessarily need to be physically present when a person is taking a sample.

Article 2(4) extends the pre-movement testing window, where an animal is to be moved off a holding, from 30 to 60 days.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2025 Rhif 516 (Cy. 92)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2025

Gwnaed	*24 Ebrill 2025*
Yn dod i rym	*8 Mai 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1) a 25 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mai 2025.

Diwygio Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024

2.—(1) Mae Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1 (enwi, cymhwyso a dod i rym), ym mharagraff (4), yn lle "2025" rhodder "2026".

(3) Yn lle'r geiriau "o dan oruchwyliaeth", ym mhob lle y maent yn ymddangos, rhodder y geiriau "o dan gyfarwyddyd".

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchmynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a 2004 (O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2024/753 (Cy. 105).

2025 No. 516 (W. 92)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2025

Made	*24 April 2025*
Coming into force	*8 May 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1) and 25 of the Animal Health Act 1981(**1**), make the following Order.

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) (Amendment) Order 2025.

(2) This Order comes into force on 8 May 2025.

Amendment of the Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024

2.—(1) The Bovine Viral Diarrhoea (Wales) Order 2024(**2**) is amended as follows.

(2) In article 1 (title, application and coming into force), in paragraph (4), for "2025" substitute "2026".

(3) For the word "supervision", in each instance where it appears, substitute the word "direction".

(**1**) 1981 c. 22. Functions of "the Ministers" under the Animal Health Act 1981 (as defined in section 86(1) of that Act) are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly (Transfer of Functions) Orders 1999 and 2004 (S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044) and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) S.I. 2024/753 (W. 105).

(4) Yn erthygl 40 (profi cyn symud), ym mharagraff (2), yn lle “30” rhodder “60”.

(4) In article 40 (pre-movement testing), in paragraph (2), for “30” substitute “60”.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
24 Ebrill 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
24 April 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39692-8

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/516